


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Freshwater East

Taith Antur Cadair Olwyn



Freshwater East

Taith Antur Cadair Olwyn

Freshwater East

SS023983

Dechreuau'r llwybr troed o'r man parcio bach ar ymyl ddwyreiniol y pentref, i arwain at yr olygfan ar gopa'r clogwyn. Gallwch barcio am ddim, ond mae'r nifer o lefydd yn gyfyngedig i uchafswm o wyth cerbyd. Mae gan y maes parcio arwyneb caled.

O'r maes parcio at yr olygfan mae'r pellter yn 157 metr. Mae gan y llwybr troed arwyneb o goncrit gyda lled o 1.2 metr, o leiaf. Ceir sawl man pasio ac mae yna raddiannau hir ac ysgafn, gyda glaniadau. Mae pob graddiant wedi cael ei wella yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac arfer gorau, ac nid ydynt yn fwy serth nag 1:12. Fe fydd cadeiriau olwyn a weithredir â llaw angen cymorth.

Wrth yr olygfan mae yna banel dehongli, mainc a bwrdd picnic sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ac sy'n edrych allan dros y bae.

Gwnaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol waith gwella sylweddol ar y llwybr ym mis Ebrill 2015, ac fe ariannwyd y gwaith gan Lywodraeth Cymru.

